**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 13eg Chwefror 2001 |
| **Amser** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Val Feld | (Llafur) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Glyn Davies

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-03-2001 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6$^{ed}$ Chwefror 2001.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y cytunwyd bod materion a oedd yn adroddadwy o dan Reol Sefydlog 11.5, wrth iddynt ystyried **Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001** (LC160) yn y cyfarfod blaenorol, ond gan mai mân gamgymeriadau drafftio oeddent gellid eu diwygio gan Femorandwm Cywiriadau. Cafodd y Memorandwm Cywiriadau ei osod gerbron y Cynulliad i'w ystyried ochr yn ochr â'r rheoliadau drafft ar gyfer y cyfarfod llawn ar 15$^{fed}$ Chwefror.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC162: Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 1)(Cymru) 2001**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r gorchymyn ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw cyffredinol ynglí n â chynnwys yn ddiangen y dyddiad "dod i rym" nad oedd yn arferol gwneud hynny gyda gorchmynion cychwyn.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y gorchymyn fel LC162 (Adroddiad).

**LC163: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Cyfathrebu Electronig)(Cymru) 2001**
3.4 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.5 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau bod yna fater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Cafodd y Gorchymyn ei osod heb i'r "dyddiad dod i rym" gael ei gynnwys. Cytunwyd y gellid ei ddiwygio o dan Reol Sefydlog 22.13 gan Femorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor nodi ei fod yn amodol ar gywiro'r gwall hwn yn y modd hwn. Roedd hefyd nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd y Pwyllgor o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei Adroddiad.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y gorchymyn drafft fel LC163(Adroddiad).

**LC164: Gorchymyn Addysg (Cofnodion Disgyblion) (Cymru) 2001**
3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Rhoddwyd cyfle i'r Ymgynghorwyr Cyfreithiol weld drafft cynnar o'r Rheoliadau ac roeddent wedi nodi nifer o bwyntiau a gafodd eu hystyried yn y drafft terfynol.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliadau drafft fel LC164 (Adroddiad).

**LC165: Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001**
3.10 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r gorchymyn ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Rhoddwyd cyfle i'r

Ymgynghorwyr Cyfreithiol weld drafft cynnar o’r gorchymyn ac roeddent wedi nodi nifer o bwyntiau a gafodd eu hystyried yn y drafft terfynol.

3.12 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y gorchymyn drafft fel LC165 (Adroddiad).

**LC166: Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001**
3.13 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaed y rheloiadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i’r gorchymyn ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn ei Adroddiad.

3.15 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r cynulliad ar y rheoliadau fel LC166(Adroddiad).

**LC167: Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2001**
3.16 Cyflwynodd Mr Davies ei adroddiad i’r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y weithdrefn Weithredol.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5 ac ni wnaed unrhyw sylwadau cyffredinol.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y rheoliadau fel LC167(Adroddiad).

**Eitem 4: Gohebiaeth y Pwyllgor**
4.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymateb gan Jane Hutt, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lythyr a anfonwyd ar 23ain Ionawr yngĺ n â **Rheoliadau Cig Ffres (Dulliau Rheoli Cig Eidion) Rhif Dau) (Diwygio) (Cymru) 2000** (LC149). Roedd y Pwyllgor wedi tybio y gallai fod achos i wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i’r Rheoliadau ar sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Roedd hyn mewn perthynas ag effaith barhaus Rheoliad 3 o Reoliadau 1996, absenoldeb testun Cymraeg, argaeledd cyfleusterau ar gyfer y "prawf cyflym cymeradwy" ac effeithiolrwydd yr ymgynghoriad statudol.

4.2 Yn ei hymateb, dywedodd Ms Hutt:

- Nad bwriad Rheoliad 3A oedd diystyru’r gwaharddiad yn Rheoliad 3 ar werthu cig eidion i’w fwyta o anifeiliaid dros 30 mis oed ar eu lladd. Roedd Rheoliad 3A yn gosod gwaharddiad ar wahân ac roedd yn berthnasol i’r anifeiliaid hynny a gafodd eu heithrio o Reoliad 3 ar y sail eu bod yn rhan o’r Cynllun Sicrwydd Cig Eidion.
- Dywedodd y Gweinidog y cafodd Rheoliad 3A ei ddrafftio’n fwriadol er mwyn gwneud ei ddiddymiad yn ddiangen yn gyfreithiol.

- Roedd yr oedi sylweddol wrth gyhoeddi Rheoliad y Comisiwn Ewropeaidd wedi golygu na fyddai’n rhesymol ymarferol i gael testun Cymraeg o ystyried y terfyn amser ar gyfer dod â’r Rheoliadau i rym (1$^{af}$ Ionawr 2001). Oherwydd yr amgylchiadau eithriadol roedd Ms Hutt wedi rhoi caniatâd i fwrw ymlaen gyda drafft uniaith Saesneg er nad oedd wedi diystyru drafft Cymraeg. Paratowyd drafft Cymraeg ond oherwydd cais gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i wneud nifer fawr o ddiwygiadau bu’n amhosibl cael cyfieithiad diwygiedig mewn pryd. Fodd bynnag byddai cyfieithiad Cymraeg yn cael ei ddarparu yn y fersiwn cyhoeddedig. Byddai’r Rheoliadau yn cynnwys nodiant priodol i nodi mai cyfieithiad uniaith Saesneg yn unig a wnaed o’r Rheoliadau
- Roedd cyfleusterau i gynnal Profion Cyflym Cymeradwy ar gael yng Nghymru. Roedd yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol, sydd â swyddfeydd yn Aberystwyth a Chaerfyrddin, wedi cytuno i ddelio â’r trefniadau ar gyfer cynnal y profion.
- Ymgymerwyd ag ymgynghoriad. Anfonwyd llythyr ar 21$^{ain}$ Rhagfyr yn gofyn am sylwadau erbyn 28$^{ain}$ Rhagfyr. Derbyniwyd dau ymateb.

4.3 Yn dilyn trafodaeth ar ymateb Ms Hutt mynegodd yr aelodau eu pryderon ynglí n â’r ffaith na fu cyfnod digonol o ymgynghori gan ei fod wedi cynnwys y seibiant dros y Nadolig, bod diffyg fersiwn Cymraeg yn anfoddhaol ac na ddylai hyn ddigwydd ond o dan amgylchiadau eithriadol.

4.4 Yn ystod y drafodaeth, cododd y Pwyllgor bryderon ynglí n â modd storio cyrff anifeiliaid wrth aros am ganlyniadau’r profion cyflym gan nad oedd hyn yn amlwg yn syth o’r Rheoliadau. Cytunodd y Pwyllgor i godi’r materion hyn wrth ohebu. **Gweithredu: Clerc/Ymgynghorydd Cyfreithiol**

4.5 Roedd y Cadeirydd hefyd wedi derbyn llythyr oddi wrth Carwyn Jones AC, Gweinidog dros Faterion Gwledig mewn ymateb i’w lythyr dyddiedig 23 Ionawr ynglí n â **Rheoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hí n) (Cymru) 2000 (LC151).** Bu’r aelodau’n bryderus nad oedd yn glir yn syth pa bwerau a oedd ar gael i Arolygwyr o dan adran 10(2) i archwilio cofnodion pe byddai’r ddeiliadaeth yng Nghymru ond y ceidwad yn preswylio yn Lloegr.

4.6 Yn ei ymateb dywedodd Mr Jones fod y pwerau mynediad yn Rheoliad 10(1) wedi’u cyfyngu i dir ac eiddo yng Nghymru. Yn ogystal nid yw Rheoliad 10(2)(b)-(e) yn rhoi pwerau mynediad i gofnodion sy’n cael eu cadw y tu allan i Gymru. Mae unrhyw arolygiad a gynhelir yn cael ei gynnal ar sail y cyfeiriad lle y cofrestrir y ddeiliadaeth (hyd yn oed os bydd y ddeiliadaeth yn ymestyn ar draws y ffin). Dylid cadw cofnodion ar y ddeiliadaeth gofrestredig. Dywedodd Mr Jones hefyd y gallai Swyddog Maes y Cynulliad Cenedlaethol ofyn am gymorth y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF) i gynorthwyo mewn arolygiad cyfun byddai sefyllfa’n codi lle byddai cofnodion ceidwad mewn perthynas â deiliadaeth yng Nghymru yn cael eu cadw yn Lloegr.

4.7 Yn dilyn trafodaeth, mynegodd yr Aelodau eu hanfodlonrwydd ynglí n â’r eglurhad hwn.

Eglurodd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol ymhellach y byddai'r ceidwad yn euog o drosedd o dan y rheoliadau hyn pe byddai ceidwad cofrestredig yn gwrthod dangos cofnodion yn dilyn cais ysgrifenedig ac y byddai'n agored i gael ei erlyn. Roedd yn ofynnol i geidwad gwartheg ar dir yng Nghymru ddangos cofnodion pan ofynnwyd iddo wneud hynny gan Arolygydd a benodwyd gan y Cynulliad a oedd yn gweithredu o dan reoliadau a wnaed gan y Cynulliad. Ni fyddai modd i'r ceidwad haeru nad oedd y Rheoliadau yn berthnasol dim ond oherwydd bod y ceidwad wedi cadw'r cofnodion perthnasol y tu allan i Gymru.

4.8 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliadau fel LC151 (Adroddiad).

**Eitem 5: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**

5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 27ain Chwefror 2001.

**Adroddiadau a Atodir**

- LC149 (Adroddiad)
- LC151 (Adroddiad)
- LC162 (Adroddiad)
- LC163 (Adroddiad)
- LC164 (Adroddiad)
- LC165 (Adroddiad)
- LC166 (Adroddiad)
- LC167 (Adroddiad)